

- Ceisiwch gadw'r sŵn cefndir mor isel â phosib yn eich cartref, a symudwch yn agosach at eich babi mewn manau swllyd

Nid yw'r rhan fwyaf o blant sydd â cholled yng nghlyw un o'u clustiau'n defnyddio teclynau clyw. Bydd eich awdiolegydd yn gallu dweud wrthy'ch chi a fyddai teclyn clyw'n helpu'ch babi.

Beth sy'n achosi colled ar glyw un glust?

Efallai fod y babi wedi etifeddu colled barhaol ar ei glyw, hyd yn oed os nad oes colled ar glyw unrhyw aelod arall o'r teulu. Mae heintiau yn ystod beichiogrwydd yn gallu achosi colled ar glyw'r babi, neu os yw babi'n cael ei eni'n gynnar neu fod cymhlethdodau yn ystod y geni. Efallai fod y golled yn rhan o gyflwr arall neu'n gysylltiedig ag anawsterau eraill. Mae afiechydon plentyndod fel clwy'r pennau, y frech goch neu lid yr ymennydd yn gallu achosi colled ar glyw un o glustiau plentyn.

Gallwch chi drafod gyda'r meddyg arbenigol sy'n gweithio gyda'ch awdiolegydd sut mae dod i wybod beth sydd wedi achosi'r golled ar glyw eich babi. Yn achos rhai babanod a phlant, efallai nad yw'n bosib dod i wybod yr achos.

Pa gymorth sydd ar gael?

Bydd eich awdiolegydd a'ch meddyg arbenigol yn eich cynorthwyo chi a'ch teulu.

Pan mae'ch babi'n gallu eistedd i fyny a throi ei ben i gyfeiriad seiniau, dylai prawf clyw roi mwy o wybodaeth am y golled. Bydd yn bwysig hefyd i wirio bod y clyw yng nghlust orau'ch babi'n dal i weithio'n dda.

Bydd eich babi'n cael profion clyw rheolaidd i weld a oes unrhyw newid yn lefel ei glyw. Os ydych chi'n poeni rhwng yr apwyntiadau yma, gofynnwch i'ch awdiolegydd drefnu prawf yn gynt.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) yn gallu cynnig cymorth a gwybodaeth i chi. Mae gan y Gymdeithas linell gymorth arbennig i rieni plant sydd â cholled ar eu clyw. Bydd eu cynghorwyr profiadol yn gallu helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gallwch chi gysylltu â'r NDCS yn unrhyw un o'r ffyrdd sy'n dilyn:

Ebost: ndcs@ndcs.org.uk

Gwefan: www.ndcs.org.uk

Interpreter Now: <https://interpreternow.co.uk/ndcs>

Llinell gymorth radffon: 0808 800 8880 (llais/testun) (mae dulliau eraill o gysylltu hefyd ar gael, gweler <https://www.ndcs.org.uk/our-services/services-for-families/helpline/>)



Newborn Hearing Screening Wales
Sgrinio Clyw Babanod Cymru

Mae colled ar glyw eich babi, yn un o'i glustiau

Gwybodaeth i rieni



Cymraeg Clir®

Fersiwn 2 7/21

Mae'r daflen yma i rieni babi sydd â cholled ar ei glyw yn un o'i glustiau.


Mae'r daflen yn esbonio:

- Y ffordd mae'r glust yn gweithio
- Ystyr colled ar glyw un glust
- Sut y gallai'r golled effeithio ar eich babi
- Y ffyrdd posib o helpu
- Sut y gallai'r golled effeithio ar eich plentyn wrth iddo dyfu
- Y pethau sy'n achosi colled ar y clyw
- A'r mathau o gymorth sydd ar gael

Sut mae'r glust yn gweithio?

Mae seiniau'n symud i mewn i'r glust ac yn cael eu newid yn signalau mae'r ymennydd yn gallu eu deall. Mae'r glust hefyd yn helpu cydbwysedd y corff. Mae tair rhan i'r glust – y glust allanol, y glust ganol a'r glust fewnol.

Diagram o'r glust



Beth mae colled ar glyw un glust yn ei olygu?

Mae hyn yn golygu bod profion clyw wedi dangos bod eich babi'n clywed yn dda gydag un o'i glustiau ond nad yw'n clywed mor dda gyda'r llall. Efallai y bydd hyn yn cael ei alw'n golled unochrog ar y clyw.

Mae colled ar y clyw'n gallu bod ar wahanol lefelau. Gall y golled fod yn ysgafn, yn gymedrol, yn ddifrifol neu'n llwyr. Bydd eich awdiolegydd yn esbonio canlyniadau'r prawf ac yn dweud faint o golled sydd ar glyw eich babi. Mae gwahanol fathau o golled ar y clyw. Mae'r math o golled sy'n effeithio ar glyw eich babi'n dibynnu ar y rhan o'r glust lle mae'r broblem.

Mae colled synwyrnerfol ar y clyw (sydd weithiau'n cael ei alw'n byddardod nerfol) yn golled barhaol ar y clyw. Mae'n golygu fel arfer fod problem yn y cochlea, sef rhan o'r glust fewnol.

Mae colled ddargludol ar y clyw'n golygu nad yw seiniau'n mynd yn rhwydd drwy'r glust allanol a'r glust ganol i'r glust fewnol. Mae colled ddargludol fel arfer yn un dros dro, ond mae'n gallu bod yn golled barhaol ar glyw nifer bach iawn o fabanod.

Mae plant sydd â cholled synwyrnerfol ar eu clyw'n gallu cael colled ddargludol dros dro ar eu clyw hefyd.

Sut bydd y golled ar ei glyw'n effeithio ar fy mabi?

Mae'n gallu bod yn anodd adnabod colled ar glyw babi neu blentyn ifanc, os yw'r golled yn un o'i glustiau. Mae'n debyg y bydd eich babi'n clywed yn dda yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Bydd y rhan fwyaf o blant sydd â cholled ar glyw un glust yn dysgu i siarad yn glir.

Efallai y bydd eich plentyn yn cael trafferth:

- clywed seiniau drwy'r glust sydd â'r golled neu glywed yr hyn mae rhywun yn ei ddweud wrtho
- adnabod o ba gyfeiriad mae sain yn dod
- deall pobl yn siarad os oes sŵn yn y cefndir.

Wrth i'ch plentyn dyfu, efallai y bydd yn cael mwy o drafferth clywed yn glir mewn rhai sefyllfaoedd. Bydd tîm eich awdiolegydd yn gallu'ch cynghori a rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Beth sy'n gallu helpu fy mabi i glywed yn fwy clir?

Bydd eich babi'n agos atoch chi yn ystod y misoedd cynnar a bydd yn gallu clywed eich llais a gweld eich wyneb. Ond dyma rai awgrymiadau i helpu'ch babi i glywed yn well:

- Cyn siarad gyda'ch babi, gwnewch yn siŵr fod ei sylw arnoch a'i fod yn edrych arnoch
- Symudwch yn agosach at eich babi pan rydych chi'n siarad, yn hytrach na chodi'ch llais
- Ceisiwch siarad gyda'ch babi drwy'r glust y mae'n clywed yn dda drwyddi
- Wrth siarad gyda'ch babi neu wrth ganu iddo, gwnewch yn siŵr nad yw ei glust dda'n gorwedd yn eich erbyn